Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# NMC

## Cynllun Corfforaethol

2022–2025

# Rhagair

**Eleni, 2022–2023, yw pwynt hanner ffordd ein strategaeth bresennol. Fe wnaethom lansio'r strategaeth yn 2020, ond mae'r byd yn edrych yn wahanol iawn nawr. Yn ystod y pandemig, newidiodd ein ffocws i gefnogi'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr i ddarparu'r gofal diogel ac effeithiol sydd ei angen ar y genedl wrth i ni ymateb i'r pandemig coronafeirws.**

Fe wnaeth ein strategaeth ein helpu i lywio'r sefyllfa hon sy'n datblygu. Fe wnaeth tair colofn graidd ein gwaith – rheoleiddio, cefnogi a dylanwadu – ein harwain i addasu ein hymagwedd a bod yn hyderus yn ein penderfyniadau mewn ymateb i'r pandemig hwn.

Am y rhan fwyaf o 2021-2022, roedd gan Covid-19 le blaenllaw yn ein meddyliau. Parhaodd i roi pwysau eithriadol ar y gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio a'r partneriaid rydym yn cydweithio â nhw. Hyd yn oed nawr, wrth i ni symud i'r flwyddyn newydd gyda'r rhan fwyaf o amddiffyniadau a chyfyngiadau wedi'u codi, mae'r pwysau'n parhau, er y gallai eu natur fod wedi newid.

Mae arnom oll deyrnged fawr i nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio a myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth am y ffordd y maent wedi addasu ac arloesi yn wyneb newid ac amgylchedd cynyddol gymhleth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ac er bod y pandemig wedi dod â heriau digynsail a pharhaus i'r sector iechyd a gofal, roedd yn bwysicach nag erioed i ni weithredu yn unol â'n hymrwymiadau strategol: arloesi a gwella, darparu cefnogaeth ragweithiol i'r gweithwyr proffesiynol anhygoel ar ein cofrestr, i fod yn weladwy ac yn wybodus, i rymuso ac ymgysylltu, ac i ddefnyddio ein dirnadaeth i ddylanwadu ar newid cadarnhaol.

I ni yn yr NMC, mae'r pandemig yn golygu nad ydym lle roeddem wedi disgwyl bod yn y drydedd flwyddyn hollbwysig hon. Rwyf yn hynod falch o'r rôl a chwaraewyd gennym i gefnogi'r gweithlu a helpu nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio i ddarparu'r gofal gorau posibl, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau anoddaf. Ond mae hynny'n golygu nad ydym wedi gallu datblygu rhai o'r uchelgeisiau a amlinellwyd yn ein strategaeth.

Rydym yn teimlo effaith fwyaf y pandemig yn nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer sydd gennym ar hyn o bryd. Dod â'r llwyth achosion i lawr yw ein prif flaenoriaeth o hyd, a gobeithiwn yn ystod y flwyddyn nesaf y bydd y newidiadau yr ydym wedi'u cyflwyno yn dechrau dod yn fwy effeithiol wrth iddynt ymsefydlu.

Mae llawer o'r gwelliannau rydym wedi'u gwneud o ran addasrwydd i ymarfer yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer y cyfeiriad teithio ym maes diwygio rheoleiddiol, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ledled y DU i wneud yn siŵr ein bod yn barod ar gyfer diwygio pan ddaw.

Yn 2021-2022, fe wnaethom ddechrau nifer o ddarnau pwysig o waith a fydd yn parhau yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Fe wnaethom ymgynghori ar ein safonau ôl-gofrestru newydd rhwng Ebrill ac Awst 2021, ac rydym yn bwriadu lansio'r fersiynau terfynol yr haf hwn.

Rydym hefyd wedi dechrau gweithio ar set fwy modern ac ystwyth o safonau rhaglen ar gyfer addysg cyn cofrestru ac yn disgwyl ymgynghori a chytuno ar gynigion ar gyfer newid eleni.

Yn 2021 fe wnaethom adnewyddu ein hymagwedd at gofrestru rhyngwladol. Fe wnaethom gynyddu capasiti'r canolfannau prawf y prawf cymhwysedd (y ffordd y gall gweithwyr proffesiynol a hyfforddwyd dramor ymuno â'n cofrestr) trwy ddod â chanolfannau newydd i mewn. Yn 2022 byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn i adolygu'r ffordd rydym yn gofyn i weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi dramor arddangos eu gallu yn yr iaith Saesneg.

Wrth i ni gyhoeddi'r cynllun corfforaethol hwn, mae'n amlwg bod llawer iawn o wasanaethau mamolaeth yn wynebu heriau sylweddol, ag effeithiau dinistriol ar fenywod a'u teuluoedd yn cael eu heffeithio gan ofal gwael fel y dengys adroddiadau diweddar ar ddiogelwch gwasanaethau mamolaeth. Gwyddom fod pryderon a risgiau'n eang, yn arbennig o ystyried y pwysau hysbys ar staffio bydwreigiaeth, ac mae angen mynd i'r afael â hyn ar fyrder.

Mae angen i bob un ohonom – rheoleiddwyr, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol – ddod at ein gilydd i sicrhau gwelliannau cynaliadwy mewn gwasanaethau mamolaeth. Ni all un person neu sefydliad ddatrys y materion hynny, ond yn yr NMC, byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud i welliannau ddigwydd.

Mae gofal mamolaeth hefyd yn faes lle mae canlyniadau'n waeth o lawer i fenywod o gefndiroedd Du, ond wrth gwrs nid yw anghydraddoldeb iechyd a gwahaniaethu wedi'u cyfyngu i ofal mamolaeth. Fel yr amlygodd Arsyllfa Hil ac Iechyd y GIG yn ddiweddar, mae nyrsys Du Affricanaidd a'r rhai sydd wedi'u hyfforddi dramor yn wynebu cam-drin hiliol gan aelodau'r cyhoedd a'u cyfoedion. Mae ein hymchwil ein hunain yn dangos bod nyrsys a bydwragedd Du yn cael eu hatgyfeirio'n anghymesur i'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer.

Rydym yn glir ynghylch ein cyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr. Rydym yn uchelgeisiol ynghylch yr hyn y gallwn ei gyflawni i hyrwyddo arfer gorau ym maes cydraddoldeb, gan weithio gyda'n partneriaid a'r sector ehangach. Byddwn yn ymgorffori'r ymrwymiad hwn yn ein holl waith fel yr ydym wedi'i amlygu yn ein cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Byddwn yn parhau i wrando ar ac ymgysylltu â'r cyhoedd yr ydym yma i'w gwasanaethu, y gweithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio a'r partneriaid yr ydym yn cydweithio â nhw fel y gallwn fod yn ymatebol ac yn ystwyth i newidiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi gweithio gyda ni yn ystod ail flwyddyn y pandemig; ni allem fod wedi ei wneud heboch chi, ac ni allwn ychwaith yn y dyfodol.

Fel bob amser, rwy'n talu teyrnged i'm cydweithwyr dawnus ac ymroddedig ar draws y sefydliad, yr uwch dîm a'r Cyngor am eu hyblygrwydd yn wyneb newid digynsail a phopeth y maent wedi'i gyfrannu yn 2021–2022. Rwyf yn hyderus, drwy gydweithio â'n gilydd, a bod yn deg a charedig, y byddwn yn gwireddu'r uchelgeisiau a nodir yn y cynllun hwn.

**Andrea Sutcliffe**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**

# Pwy ydym ni

**Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.**

# Yr hyn a wnawn

**Ein gweledigaeth yw nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron i 745,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.**

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon ynghylch nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, **rydym yn cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i ddylanwadu ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.





# Ein gwerthoedd

| | |
|---|---|
| **Rydym yn deg** | **Rydym yn trin pawb yn deg. Mae tegwch wrth galon ein rôl fel rheoleiddiwr a chyflogwr tryloyw y gellir ymddiried ynddo.** |
| **Rydm yn garedig** | **Rydym yn ymddwyn yn garedig ac mewn ffordd sy'n gwerthfawrogi pobl, eu dirnadaeth, eu sefyllfaoedd a'u profiadau.** |
| **Rydym yn gydweithredol** | **Rydym yn gwerthfawrogi ein perthnasoedd (o fewn a thu allan i'r NMC) ac yn cydnabod ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio'n dda gydag eraill.** |
| **Rydym yn uchelgeisiol** | **rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith. Rydym yn agored i ffyrdd newydd o weithio a byddwn bob amser yn ceisio gwneud ein gorau dros y gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr, y cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu a'n gilydd.** |



Ffotograff wedi'i dynnu cyn y pandemig

# Ein strategaeth

**2022–2023 yw trydedd flwyddyn ein strategaeth bum mlynedd hyd at 2025. Gallwch ddarllen ein strategaeth lawn ar ein gwefan.**

## Ein rôl 2020–2025

### Rheoleiddio

- **Cofrestr** gywir a thryloyw
- **Safonau** proffesiynol ac addysgol cadarn
- Sicrhau **rhaglenni** addysg
- **Ymateb yn deg i bryderon addasrwydd i ymarfer (FtP)**

### Cefnogi

- Hyrwyddo **dealltwriaeth** - ein proffesiynau a'n rôl
- Darparu **offer ymarferol** – helpu i wreiddio safonau
- **Cefnogaeth emosiynol/ymarferol** - pobl yn ymwneud â'n prosesau

### Dylanwadu

- Hyrwyddo **amgylcheddau gwaith proffesiynol** cadarnhaol a chynhwysol
- Rhannu **data a mewnwelediad** i nodi risgiau o niwed a mynd i'r afael â heriau'r gweithlu
- Annog **arloesi rheoleiddiol**

## Ein themâu strategol 2020–2025

1. Arloesedd a gwelliant
2. Cefnogaeth ragweithiol
3. Gweladwy ac yn fwy Gwybodus
4. Ymgysylltu a grymuso
5. Mewnwelediad a dylanwad

Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr NMC yn **sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol**



# Cyd-destun strategol

## Ymateb i'r amgylchedd allanol

### Gwella o'r pandemig coronafirws

Er y gallai cyfnod argyfwng y pandemig fod wedi dod i ben, mae gweithwyr proffesiynol yn dal i weithio mewn amgylchedd heriol a chymhleth i fynd i'r afael ag effeithiau sylfaenol ac eilaidd Covid.

Rydym yma i gefnogi'r sector mewn cydweithrediad â phartneriaid ac arweinwyr sector i ddeall y pwysau allweddol y mae ein gweithwyr proffesiynol yn gweithio oddi mewn iddynt ac i ddylanwadu ar newid lle mae'n briodol.

Wrth i ni ddysgu byw gyda Covid byddwn yn parhau i barchu amser pobl, a byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyfathrebu ac yn cydgynhyrchu mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o amser pawb.

### Y Gweithlu

Mae'r sector iechyd a gofal yn parhau i wynebu prinderau aciwt yn y gweithlu. Er bod nifer y bobl ar ein cofrestr yn parhau i godi, mae'r galw yn cynyddu'n gyflymach.

### Diogelwch gwasanaethau mamolaeth

Rydym yn parhau i gyfrannu at fecanweithiau sicrhau ansawdd cenedlaethol a rhanbarthol sydd wedi'u cryfhau yn sgil pryderon ynghylch diogelwch gwasanaethau mamolaeth yn Lloegr. Gyda chyhoeddiad adroddiad Ockenden yn ddiweddar a nifer o adroddiadau ymchwiliadau eraill ar y gweill, rydym yn parhau i nodi a rhannu dysgu ac arfer da ledled y DU, ac i hyrwyddo ein safonau newydd fel sail gref i bob bydwraig wella ei harfer ac i helpu i atal pethau rhag mynd o chwith.

### Rheoli heriau economaidd, gwleidyddol a hinsawdd

Mae'r amgylchedd cymdeithasol ac economaidd rydym yn gweithio ynddo yn dod yn fwyfwy heriol, gyda'r gyfradd chwyddiant uchaf a welwyd ers blynyddoedd lawer, marchnad lafur gynyddol gystadleuol, heriau ar draws y gadwyn gyflenwi fyd-eang a marchnad stoc gyfnewidiol. Rhaid i ni hefyd gydnabod effaith y rhyfel yn yr Wcrain, sy'n achosi ansefydlogrwydd byd-eang ac economaidd pellach ac yn cynyddu'r risg o ymosodiadau seiber. Ar yr un pryd mae'r argyfwng hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gymryd agwedd weithredol at gynaliadwyedd.

Er mwyn liniaru'r materion hyn, rydym wedi cymryd ystod o gamau.

- Rydym wedi cynnwys costau ychwanegol yn ein cynlluniau, tra'n sicrhau y byddwn yn gweithredu o fewn cyfyngiadau ein cronfeydd rhydd wrth gefn.
- Rydym wedi cyflwyno adolygiadau rheolaidd o'n seiberddiogelwch.
- Rydym yn datblygu ein cynllunio cynaliadwyedd yn ystod y flwyddyn.
- Bydd ein Cynllun Pobl yn ein helpu i recriwtio a chadw'r bobl gywir.

### Ymagweddau at iechyd ar draws y pedair gwlad

Ledled y DU, mae pob un o'r pedair gwlad wedi ymrwymo i integreiddio gwell rhwng iechyd a gofal cymdeithasol fel ateb i heriau i'r system iechyd a gofal. Ond mae gwahaniaethau mewn cyllid a gweithrediadau yn golygu bod yy ymagwedd at integreiddio'n amrywio.

Mae'r system iechyd a gofal yn wynebu heriau gwahanol ac mae angen ymagweddau gwahanol at fynd i'r afael â materion (er enghraifft, cynllunio'r gweithlu, darparu gwasanaethau) oherwydd datganoli. Rhaid i ni weithredu cysondeb rheoleiddiol tra chadw'n ymwybodol o wahaniaethau a sensitifrwydd.

### Ein meysydd canolbwyntio mewnol

Wrth i ni symud i ganol ein strategaeth 5 mlynedd, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni ein cynlluniau uchelgeisiol a nodwyd gennym yn 2020 er gwaethaf rhywfaint o oedi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Wrth i'r pandemig symud i adferiad, bydd y drydedd flwyddyn hon yn hollbwysig i ni symud ein ffocws yn ôl i gyflawni ein strategaeth.



## Lleihau'r llwyth achosion addasrwydd i ymarfer

Bydd lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer i lefelau hylaw yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn ein cynllun corfforaethol 2022-2025.

Rydym wedi cynllunio ein gwaith gwella addasrwydd i ymarfer er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn delio a phryderon cyn gynted a phosibl. Byddwn yn anelu at atal y llwyth achosion rhag codi ymhellach, lleihau nifer yr achosion yr ydym yn eu dal ar unrhyw un adeg yn ol i lefelau y gellir eu rheoli, a phrosesu achosion mewn ffordd deg, amserol a chost-effeithiol.

I wneud hyn rydym yn ailgynllunio ein prosesau rheoleiddio ac yn buddsoddi mewn adnoddau ychwanegol i gynyddu capasiti mewn meysydd allweddol am gyfnod cyfyngedig o amser. Mae hyn wedi'i gynllunio i leihau'r llwyth achosion yn ystod 2022 – 2023 ac atal ei gynnydd yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn ymgorffori ein llwyddiannau megis ymgysylltu cynnar i ysgogi gwelliannau pellach a gwneud yn siŵr nad oes rhwystrau pan fydd angen i bobl godi pryderon gyda ni. Er mwyn ein helpu i wneud y penderfyniadau cywir, ar yr adeg gywir, rydym hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatrys achosion yn gyflym ac yn lleol, lle bynnag mae'n briodol.

## Parhau i wneud ein prosesau'n deg i bawb

Bydd integreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ym mhopeth a wnawn yn ein gwneud yn gyflogwr gwell ac yn lle cynhwysol i weithio i'n cydweithwyr. Bydd hefyd yn cynyddu hyder y cyhoedd ynom, yn ein helpu i fod yn rheoleiddiwr mwy effeithiol ac yn rhoi llwyfan i ni ddylanwadu ar newid o fewn rheoleiddwyr a phartneriaid eraill ar draws y sector iechyd a gofal. Rydym yn cymryd camau, ond mae gennym lawer mwy i'w wneud. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau unigol a chyfunol i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i sicrhau newid trwy ddiwygio rheoleiddiol

Mae ein deddfwriaeth wedi dyddio ac mae'n anhyblyg. Rydym yn cefnogi cynigion y llywodraeth i ddiwygio deddfwriaeth rheoleiddwyr proffesiynau iechyd a gofal. Bydd deddfwriaeth fodern yn ein galluogi i reoleiddio'n fwy diogel i'r cyhoedd a chefnogi ein cofrestreion yn well. Rydym yn cynllunio ar y sail y gallai diwygiadau i'n deddfwriaeth ddechrau dod i rym ar y cynharaf yn 2024.

Bydd diwygio yn ein galluogi i wneud yn siŵr ein bod yn rheoleiddio ar flaen y gad o ran arfer yn y dyfodol, gan gydweithio â'n partneriaid a rheoleiddwyr eraill i wneud yn siŵr bod rheoleiddio'n adlewyrchu'r amgylcheddau amlddisgyblaethol y darperir gofal ynddynt, a'r sgiliau uwch ac arbenigedd y mae gofal cymhleth, claf-ganolog yn galw amdanynt.





# Ein hymrwymiadau ar gyfer 2022 – 2025

**Mae'r 22 ymrwymiad dilynol yn nodi'r hyn y disgwyliwn ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf. Er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau'n parhau i fod yn gydnaws ag anghenion y sector a nodau ein strategaeth, byddwn yn parhau i adolygu ein cynllun corfforaethol a'n cyllideb yn rheolaidd.**



## Cefnogaeth ragweithiol i weithwyr proffesiynol

**Rydym yn gweithio i alluogi ein proffesiynau i gynnal ein safonau heddiw ac yfory, gan ragweld a llunio arferion nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol.**

**01** **Cyflenwi set newydd o safonau ôl-gofrestru uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar ymarfer nyrsio cymunedol.**

Byddwn yn gorffen ein gwaith i ddatblygu a gweithredu set newydd o safonau ôl-gofrestru ar gyfer gweithwyr proffesiynol ar gyfer nyrsio cymunedol ac iechyd y cyhoedd yn y DU, gan alluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu safonau uchel o ofal i'r cyhoedd.

**02** **Darparu mwy o hyblygrwydd mewn addysg a hyfforddiant cyn cofrestru nyrsio a bydwreigiaeth drwy lansio safonau newydd ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU.**

Ar ôl i ni adael yr UE, byddwn yn adolygu safonau'r rhaglen ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU ac yn gweithredu unrhyw newidiadau i gefnogi rhaglenni addysg nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio.

**03** **Adolygu rheoleiddio ymarfer nyrsio uwch.**

Byddwn yn archwilio a oes angen rheoleiddio ymarfer nyrsio uwch, ac os felly, byddwn yn datblygu ac yn cymeradwyo safonau newydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

**04** **Adolygu gofynion ail-ddilysu ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol.**

Byddwn yn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr ar sut y dylai ailddilysu gysylltu â'n safonau hyfedredd. Byddwn wedyn yn adolygu ein gofynion ail-ddilysu'n ffurfiol â'r nod o gryfhau'r broses a'i ffocws ar ein safonau hyfedredd a datblygiad proffesiynol parhaus.

**05** **Gweithredu ymagwedd newydd sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n gymesur â sicrhau ansawdd addysg sy'n ein galluogi i gael trosolwg mwy cyfannol o sefydliadau a'u rhaglenni er mwyn gwneud ymyriadau priodol.**

Byddwn yn gwella'r ffyrdd rydym yn casglu, cofnodi a dadansoddi data ar ein sefydliadau addysg cymeradwy a'u rhaglenni. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud ymyriadau wedi'u targedu lle byddwn yn nodi pryderon posibl ac yn cryfhau ein ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**06** **Gwerthuso a yw amser dysgu wedi'i neilltuo yn unol â safonau cyfredol cymdeithion nyrsio.**

I gefnogi eu haddysg, byddwn yn gwerthuso'r defnydd o amser dysgu wedi'i neilltuo yn y safonau cymdeithion nyrsio ac yn gwneud unrhyw addasiadau priodol.

## Gwella ac arloesi

**Gwella ac arloesi ar draws ein holl swyddogaethau rheoleiddio, gan ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, a sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd o'r hyn a wnawn.**

**07** **Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a gwneud gwelliannau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio er mwyn sicrhau ein bod yn prosesu achosion mewn modd amserol, cymesur ac effeithlon.**

Byddwn yn lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer drwy wella ein cynhyrchiant, gan wneud yn siŵr bod prosesu'n amserol, yn gymesur ac yn fforddiadwy.

**08** **Gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gyflwyno rhaglen sylweddol o ddiwygio rheoleiddiol i ddileu rhwystrau cyfreithiol sy'n cyfyngu ar welliannau yn y ffordd rydym yn rheoleiddio.**

Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid i lunio cynigion diwygio ar newidiadau i'n trefn a'n rheolau. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn dylunio ac yn gweithredu prosesau a systemau newydd i gyflawni'r diwygiadau a nodwyd.

**09** **Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb a hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant i wneud yn siŵr bod ein prosesau'n deg i bawb.**

Byddwn yn rhoi ein cynllun gweithredu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith sydd â'r nod o wella canlyniadau i weithwyr proffesiynol o fewn ein rôl reoleiddio, ac o ran sut rydym yn cefnogi cydweithwyr yr NMC fel cyflogwr.

**10** **Dylunio a lansio gwaith treialu i gynyddu capasiti profi OSCE a gwella mynediad gan gynnwys opsiynau ar gyfer modelau darparu amgen.**

Byddwn yn treialu gwelliannau pellach i gynyddu mynediad i'r rhan arholiad ymarferol o'r prawf cymhwysedd (yr archwiliad clinigol strwythuredig gwrthrychol (OSCE)) i ddarparu mwy o gapasiti a hyblygrwydd i brofi gweithwyr proffesiynol.

**11** **Cyflawni newid polisi a deddfwriaethol i alluogi ymagweddau newydd at gofrestriadau rhyngwladol, gan gynnwys adolygiad o ganllawiau iaith Saesneg, i sicrhau eu bod yn deg.**

Byddwn yn rhoi newidiadau ar waith i'n llwybrau cofrestru rhyngwladol i sicrhau bod ein prosesau'n deg ac yn gymesur i gefnogi gweithwyr proffesiynol rhyngwladol i ymuno â'n cofrestr yn ddiogel. Bydd hyn hefyd yn cynnwys adolygiad o'n polisi iaith Saesneg.

**12** **Cau cofrestr brys Covid-19 a dileu safonau addysg adfer.**

Nawr bod y cyfnod brys wedi dod i ben, byddwn yn dileu ein mesurau adfer, yn cau'r gofrestr dros dro ac yn cefnogi gweithwyr proffesiynol cymwys i symud o'r gofrestr dros dro i'r gofrestr barhaol os dymunant.

## Mwy gweladwy a mwy gwybodus

**Rydym yn gweithio mewn cysylltiad agos â'n proffesiynau, eu cyflogwyr, a'u haddysgwyr fel y gallwn reoleiddio gyda dealltwriaeth ddyfnach o'r amgylchedd dysgu a gofal ym mhob gwlad yn y DU.**

**13** **Meithrin ymddiriedaeth mewn rheoleiddio proffesiynol drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu i adeiladu ymwybyddiaeth o bwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud, a beth rydym yn sefyll drosto.**

Byddwn yn cynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu i feithrin ymgysylltiad ac ymddiriedaeth gyda'r cyhoedd, myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth, a gweithwyr proffesiynol fel bod ganddynt ddealltwriaeth ehangach o'n rôl a sut rydym yn rheoleiddio, yn cefnogi ac yn dylanwadu.

**14** **Ehangu ein hallgymorth cenedlaethol a lleol i ymgorffori rheoleiddio, cymorth a dylanwad ar lefel leol (datblygu ein gwasanaeth cyswllt cyflogwyr yn wasanaeth allgymorth ac mewngymorth ehangach).**

Gan ddefnyddio partneriaethau a chenhadon cofrestredig, byddwn yn cynyddu ein gallu i gynghori rhaglenni cenedlaethol a lleol ar sut i ymateb i bryderon a heriau o fewn gofal cymdeithasol, Ymarfer Cyffredinol a'r sectorau preifat a gwirfoddol.

## Grymuso ac ymgysylltu

**Ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd, ein proffesiynau a'n partneriaid a'u grymuso. NMC y gellir ymddiried ynddo ac sy'n ymatebol, sy'n meithrin dealltwriaeth weithredol o'r hyn rydym ni a'n gweithwyr proffesiynol yn ei wneud ar gyfer pobl.**

**15** **Creu gwefan fodern a hygyrch sydd yn portreadu ein gwerthoedd yn effeithiol, yn darparu ein gwasanaethau craidd, ac yn gwella ein cyfathrebu ac ymgysylltu.**

Byddwn yn gweithredu gwefan newydd sy'n adlewyrchu'n effeithiol ein hunaniaeth a'n rôl i reoleiddio, cefnogi a dylanwadu, ac sy'n datblygu ein gwelliannau i swyddogaethau a phrosesau craidd.

## Mwy o fewnwelediad a dylanwad

**Gan ddysgu o ddata ac ymchwil, rydym yn gwella'r hyn rydym yn ei wneud ac yn gweithio ar y cyd i rannu mewnwelediadau'n gyfrifol er mwyn helpu i wella'r system iechyd a gofal ehangach.**

**16** **Gwella ein mewnwelediad a'i ddefnyddio i wella ein dylanwad a'n dylanwad rheoleiddiol yn y sector.**

Gan ddefnyddio ein data ein hunain, a'r hyn a rennir gan ein partneriaid, byddwn yn gwella ein dealltwriaeth ac ymateb i faterion o fewn y sector iechyd a gofal. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad mewnwelediad blynyddol newydd i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol o fewn y sector er budd ein proffesiynau a'r cyhoedd.

## Sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol

**Byddwn yn alinio ein diwylliant, ein galluoedd a'n seilwaith â'n nodau strategol newydd.**

**17** **Cyflawni ein Cynllun Pobl sy'n cefnogi ein cydweithwyr i gael eu cynnwys, eu cadw a'u cefnogi i gyflawni ein strategaeth.**

Yn seiliedig ar adborth cydweithwyr yr NMC, byddwn yn rhoi mentrau allweddol ar waith i fynd i'r afael â'r materion sydd o bwys iddynt megis gweithio hybrid, ein pecyn gwobrau, datblygu arweinwyr a dilyniant mewnol.

**18** **Gwella'r ffordd rydym wedi'n strwythuro fel y gallwn gyflawni ein strategaeth.**

Byddwn yn adolygu strwythur y sefydliad i sicrhau bod gennym y bobl iawn yn y lle iawn i gefnogi ein hanghenion busnes, ac i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan ddiwygio rheoleiddiol.

**19** **Diweddaru systemau digidol sy'n cefnogi sut rydym yn rheoleiddio i wella'r profiad i gwsmeriaid a chydweithwyr.**

Byddwn yn parhau â'n gwaith gwella mewnol i ddylunio a gweithredu systemau digidol newydd i'n cefnogi i reoleiddio'n dda, gan gynnwys ein platfform cofrestru a moderneiddio ein hofferynnau rheoli achosion addasrwydd i ymarfer.

**20** **Cyflwyno TG gyfoes drwy ein rhaglen gwella technoleg a busnes craidd er mwyn gwella ein heffeithlonrwydd.**

Byddwn yn dylunio ac yn cyflawni ein cynllun 3 blynedd i ddatblygu ein galluoedd technoleg gwybodaeth a fydd yn ein cefnogi i gyflawni ein strategaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno offer a systemau digidol newydd i'w gwneud yn haws i gydweithwyr yr NMC wneud eu gwaith yn dda a chynyddu eu cynhyrchiant.

**21** **Creu mannau gwaith modern sy'n cefnogi lles a chydweithio (rhaglen 5 mlynedd).**

Byddwn yn sicrhau bod ein mannau gwaith a'n cyfleusterau'n gynhwysol, yn hygyrch ac yn addas i'r diben er mwyn galluogi cydweithio effeithiol.

**22** **Gweithredu cynllun cynaliadwyedd ac amgylcheddol yr NMC.**

Byddwn yn rhoi ein cynllun gweithredu cynaliadwyedd a'r amgylchedd ar waith i sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd gynaliadwy ac amgylcheddol ymwybodol nawr ac yn y dyfodol.

23 Portland Place, London W1B 1PZ
T +44 20 7333 9333

**nmc.org.uk**

@nmcnews
@nmcuk

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).
©NMC 2022 - 2026

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth